# Cenn@d

HYDREF 22 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 243


## Mae eich ffydd yn bwerus, ac felly hefyd eich ewyllys

**Mae Cymorth Cristnogol ac arweinwyr nifer o enwadau yn gofyn i gynulleidfaoedd ar hyd a lled y wlad ddechrau sgwrsio am adael rhoddion yn eu hewyllysiau.**

Mae'r ymgyrch Faith Will, a lansiwyd yn 2023, wedi tyfu a thyfu, ac rydym yn falch iawn o gyflwyno'r cynllun *Ewyllys Da* | *Faith Will* i gynulleidfaoedd yng Nghymru. Rydym yn gwneud hynny ar y cyd â'n partneriaid – Yr Eglwys yng Nghymru, Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg – sy'n ymuno â'r ymgyrch eleni, ynghyd â'r Crynwyr, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, Eglwys Loegr ac Eglwys yr Alban.

Mae *Ewyllys Da* | *Faith Will* felly'n ymgyrch eciwmenaidd unigryw ynghylch cymynroddion. Y bwriad yw cynyddu'r sgyrsiau am roddion mewn ewyllysiau a'i gwneud hi'n hawdd i gynulleidfaoedd sgwrsio am roddion o'r fath mewn ffordd gadarnhaol.

Rydym yn ymwybodol fod rhoddion mewn ewyllysiau'n gallu cryfhau tystiolaeth ein heglwysi lleol, drwy weithgarwch fel banciau bwyd, ceginau bwyd a grwpiau ieuenctid. Mae ein heglwysi wrth galon cymunedau, yn dod â phobl at ei gilydd ac yn cynnig cymorth i'r rhai sydd ei angen.

Yn yr un modd, yn fyd-eang, gwyddom fod rhoddion mewn ewyllysiau'n gefn i waith dyngarol Cymorth Cristnogol. Maen nhw'n atgyfnerthu gwaith ein partneriaid lleol yn rhai o'r cymunedau mwyaf bregus, gan ddarparu cymorth brys ac ymarferol mewn cyfnodau o argyfwng – boed yn wrthdaro neu'n drychineb naturiol. Yn ogystal â hynny, maen nhw'n cefnogi cynlluniau hirdymor, fel cynnig hyfforddiant i gymunedau amaethyddol i ddysgu dulliau ffermio newydd sy'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.

Mae'r rhoddion arbennig hyn yn ffordd bwerus o gynnal tystiolaeth ein heglwysi lleol a chefnogi gwaith Cymorth Cristnogol. Ond rydyn ni'n gwybod y gall dechrau'r sgwrs hon fod yn anodd. Dyna pam mae Cymorth Cristnogol a'n partneriaid enwadol wedi mynd ati i lunio'r ymgyrch unigryw hon: *Ewyllys Da* | *Faith Will.*

Gall cynulleidfaoedd o unrhyw enwad defnyddio'r adnoddau sydd wedi'u paratoi gennym mewn gwasanaethau a chyfarfodydd i drafod rhoddion mewn ewyllysiau, a dysgu sut y gall haelioni pobl alluogi newid parhaol yn ein cymunedau lleol ac ar draws y byd. Diben yr ymgyrch arbennig hon yw ein helpu i feddwl sut y gall rhoddion mewn ewyllysiau fod yn fendith i'n teuluoedd, ein teulu eglwysig a'n cymdogion byd-eang.

### Cadw'r ffydd yn fyw

Mae partneriaid *Ewyllys Da* | *Faith Will* yn credu y gall ewyllysiau adrodd stori bwerus am ffydd rhywun. Gall y dewisiadau a wnawn sicrhau bod ein gwerthoedd yn byw am genedlaethau i ddod.

Mae Elenid Jones wedi bod yn cefnogi Cymorth Cristnogol ers blynyddoedd maith ac wedi penderfynu gadael rhodd yn ei hewyllys. Drwy wneud hyn, dywed ei bod yn teimlo y bydd yn cadw ei ffydd yn fyw yn y byd ac na fydd yn marw gyda hi.

Esboniodd Elenid: "Fe fydda i'n dal i allu helpu i wneud y byd yn lle gwell i bobl fyw a chyflawni neges Iesu inni mewn ffydd, gobaith a chariad ar ôl i fy nyddiau ddod i ben.

"Byddwn i'n dweud bod mwy o angen yn ein byd heddiw nag erioed o'r blaen. Er bod cymaint o gyfoeth yn y byd, dydy e ddim yn cael ei rhannu'n deg. Mae cyfiawnder yn rhan bwysig iawn o'm ffydd ac o waith Cymorth Cristnogol."

Ychwanegodd: "Dwi'n cefnogi *Ewyllys Da* | *Faith Will* oherwydd ei bod yn ffordd o helpu'r eglwysi a'r gymuned i wneud eu gwaith o greu dyfodol gwell i bawb.

"Un bywyd sydd gyda ni i gyflawni'r hyn allwn ni, a thrwy adael rhodd yn fy ewyllys i Gymorth Cristnogol rydw i'n helpu pobl i allu byw bywydau cyflawn yn y dyfodol."




### Ffordd bwerus o roi

Esboniodd Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru: "Mae rhoddion mewn ewyllysiau eisoes yn trawsnewid cymunedau, ymhell ac agos. Mae *Ewyllys Da* | *Faith Will* yn ei gwneud hi'n hawdd i'ch eglwys neu eich cyfarfod ddechrau meddwl am hyn.

"Ar sail ymchwil Legacy Voice 2021 Cymorth Cristnogol, gwyddom fod 67 y cant o bobl sy'n mynd i'r capel wedi dweud nad oedd rhoddion mewn ewyllysiau erioed wedi'i grybwyll yn y cwrdd. Dyna pam mae *Ewyllys Da* | *Faith Will* mor bwysig. Mae'n ffordd i eglwys siarad am gymynroddion, a hynny'n aml am y tro cyntaf. Dychmygwch y gwahaniaeth enfawr y gallai cynnal mwy o'r sgyrsiau hyn ei wneud dros amser."

**Mae adnoddau amrywiol ar gael i'w lawrlwytho neu eu harchebu am ddim: ffilm ddwyieithog fer, canllaw addoli yn Gymraeg a Saesneg, a thaflenni dwyieithog ar gyfer cynulleidfaoedd. Ewch i: https://www.christianaid.org.uk/give/gifts-wills/ewyllys-da**

Mae Elenid wedi ei hysbrydoli gan yr angen digynsail yn y byd, gan wybod y bydd ei ffydd yn dal yn fyw er mwyn ceisio mynd i'r afael â hyn. Y tu ôl i bob rhodd sy'n cael ei rhoi mewn ewyllys mae yna stori – beth allai eich stori chi fod?


Ympryd 24 awr i gofio'r rhai a laddwyd yn Gaza
Tudalen 2

Cyrsiau'r hydref yng Ngholeg y Bala
Tudalen 7

Ailsefydlu Ysgol Sul
Tudalen 8

# Ympryd 24 awr i gofio'r rhai a laddwyd yn Gaza



Caerfyrddin



Caernarfon

MERCHED CYMRU DROS HEDDWCH

Nos Sul, 8 Hydref 2023, cafwyd gwylnos dros Gaza ar y Maes, Caernarfon, ac mae hon wedi para'n wythnosol yn ddi-dor (gyda grwpiau eraill ac unigolion yn ymuno).

Gyda'r erchyllterau yn Gaza wedi cynyddu mor arswydus o ddidostur dan law annynol llywodraeth Israel, fe drefnwyd ympryd 24 awr gan Ferched Cymru dros Heddwch i nodi diwrnod heddwch y byd – gweithred heddychlon o undod i fyfyrio, dangos empathi a galw am gyfiawnder. Gwahoddwyd pobol ledled Cymru i gymryd rhan, a dyna fu hanes cannoedd ar y diwrnod hwn.

Yng Nghaernarfon nos Sadwrn, 20 Medi, daeth tua 30 o unigolion ynghyd yng nghapel y Maes i fyfyrio, cynnau canhwyllau a dechrau ymprydio.

Fore dydd Sul cerddodd dros gant o bobol yn dawel i lawr i'r Maes yn cario colomennod heddwch, a chafwyd cyfnod o ddistawrwydd i gofio'r holl blant a phobol ddiniwed sydd wedi eu lladd yn Gaza.

Yn ystod y dydd ysgrifennwyd enwau rhai o'r plant dan 18 oed sydd wedi eu lladd yn Gaza ar lechi'r Maes â sialc, fel cerrig beddi na chân' nhw byth mohonyn nhw.

Am 6 o'r gloch cafodd canhwyllau mwy sylweddol eu cynnau a darllenwyd cerddi, rhai ohonynt wedi eu hysgrifennu gan blant Gaza, i gyfeiliant cerddoriaeth oedd yn adlewyrchu ysbryd y digwyddiad.

Dyma ddywedodd maer Cyngor Tref Caernarfon, y Cynghorydd Anna Jane, un o'r rhai fu'n arwain y gweithgareddau yn ystod y dydd: "Ambell waith mae tawelwch yn gryfach na geiriau – a does dim geiriau i fynegi'r dychryn sy'n digwydd yn ein byd ni. Rydyn ni wedi treulio'r diwrnod yma ar y Maes yn coffáu rhai o'r plant – ond petaem yn cynnal angladd bob dydd i un o'r plant sydd wedi eu lladd yn Gaza byddai'n cymryd 54 mlynedd i'w claddu! Mae Cyngor Tref Caernarfon, fel cynghorau lleol ar draws y wlad, wedi bod yn galw am gadoediad ar unwaith a heddwch i bobl Israel a Phalesteina. Ar ddiwrnod Rhyngwladol Heddwch eleni mae baner Palesteina wedi cael ei chodi ar adeilad yr Institiwt fel arwydd o hynny."

Yn ôl amcangyfrif gan *The Lancet*, am bob marwolaeth dreisgar yn Gaza, roedd o leiaf bedair marwolaeth 'anuniongyrchol' o ganlyniad i lwgu, heintiau ac achosion eraill sy'n gysylltiedig â'r hil-laddiad, ond nid wedi'u achosi'n uniongyrchol gan drais. Hyd yn oed o ddefnyddio'r rhif 'ceidwadol' hwnnw, roedd 136,000 o farwolaethau treisgar erbyn Ebrill 2025 yn golygu bod 544,000 o Balestiniaid wedi marw oherwydd yr amddifadu a orfodwyd arnyn nhw – atal cymorth dyngarol ...

Mae hyn yn golygu y byddai cyfanswm y marwolaethau yn Gaza a achoswyd gan hil-laddiad Israel yn 680,000 o farwolaethau erbyn Ebrill 25 eleni – nifer syfrdanol, ond nifer sy'n llawer uwch nawr ar ôl pum mis pellach o lofruddio a llwgu torfol.

Ar 3 Medi 2025, amcangyfrifodd Dr Gideon Polya a'r Athro Richard Hill fod 380,000 o blant bach dan 5 oed wedi marw ers Hydref 2023 (*The Lancet*; Dr Gideon Polya & Prof. Richard Hill, *The Canary*). Yn ôl Cyfrifiad 2021, nifer y plant dan 5 oed oedd yn byw yng Nghymru oedd 111,000.

Wrth ysgrifennu hyn ar 16 Hydref 2025, er bod Trump wedi galw ar Netanyahu i stopio'r bomio yn Gaza, mae Israel wedi parhau i wneud hynny, a lladdwyd o leiaf 105 o bobl hyd yma.

All neb beidio â bod yn ymwybodol o'r hil-laddiad sy'n digwydd yn Gaza yn ogystal â'r erchyllterau ar y Lan Orllewinol. Mae llywodraeth eithafol Israel yn benderfynol (ac wedi cyfaddef mai dyma yw ei bwriad) o gyflawni glanhau ethnig yn Gaza.

Byddwn yn cynnal gwylnos bob nos Sul am 6.30 o'r gloch ar y Maes, Caernarfon, ac mae croeso i unrhyw un ddod i gefnogi.

*Anna Jane Evans*



Llandysul

# Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd – 3 Tachwedd 2025



**Ers 75 mlynedd bellach, mae chwiorydd yng Nghrist yng Nghymru wedi uno mewn gweddi ar gyfer Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd. Mae'n anrhydedd i ni allu adeiladu ar yr etifeddiaeth honno eleni wrth i nifer o fenywod ddod at ei gilydd unwaith eto ar draws y byd i weddïo mewn cartrefi, eglwysi a chymunedau …**

Thema Diwrnod Gweddi 2025, sef 3 Tachwedd (neu ddyddiad o'ch dewis chi), yw '**Byw y Newyddion Da**', thema sydd wedi'i hysbrydoli gan Luc 4:18–19: "Y mae Ysbryd yr Arglwydd arnaf, oherwydd iddo f'eneinio i bregethu'r newydd da i dlodion. Y mae wedi f'anfon i gyhoeddi rhyddhad i garcharorion, ac adferiad golwg i ddeillion, i beri i'r gorthrymedig gerdded yn rhydd, i gyhoeddi blwyddyn ffafr yr Arglwydd."

Trefnir Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd gan Gynghrair Menywod Bedyddwyr y Byd – rhwydwaith o chwiorydd Bedyddiedig sydd yn gwasanaethu ar draws saith undeb cyfandirol mewn dros 150 o wledydd a thiriogaethau, i gyd wedi uno yn eu galwad i wneud gwahaniaeth yn y byd dros Grist.

Ceir **adnoddau** ar wefan Undeb Bedyddwyr Cymru y gellir eu defnyddio wrth drefnu cyfarfodydd i nodi'r Dydd Gweddi.

Diolch i Elen Lansdown a Nia Llwyd o eglwys Emaus, Bangor, am gyfieithu ac addasu'r oedfa i'r Gymraeg.




Cristnogaeth 21


## Cynhadledd Flynyddol 2025

**Ar-lein:** trwy gyfrwng Zoom.
9.30yb - 12.00yp, Dydd Sadwrn, 15 Tachwedd 2025.

Sesiwn 1: **Croes Crist: Croes Pwy?**
– Parch. Ddr Rosa Hunt, Eglwys y Tabernacl, Caerdydd
– Parch. Ddr Edward Kaneen, Coleg Bedyddwyr Caerdydd

Sesiwn 2: **Natur Gysegredig a Bywhau Cristnogaeth**
– Cynog Dafis a Roni Roberts



Sesiwn 3: **Cyfarfod blynyddol yr elusen.**

Cofrestrwch drwy anfon e-bost at:
cristnogaeth21@gmail.com cyn ddydd Llun, 10 Tachwedd.
Anfonir dolen a rhaglen atoch rhai dyddiau cyn y gynhadledd.

Llusern: Cristnogaeth 21 Cymru. Rhif elusen: 1011618

## *CYMDEITHASFA'R GOGLEDD*

**Y Weinidogaeth Iacháu**

**Encil yr Hydref**



**Capel y Bowydd, Blaenau Ffestiniog, LL41 3UH**

Dydd Sadwrn, 25 Hydref 2025
11 tan 3 o'r gloch
Ymgynnull am 10:30 o'r gloch

Dewch â byrbryd:
Manylion: Parch Nesta Davies 07870323790




## YMDDIRIEDOLWYR

### *Ymunwch â'r **Trawsnewidiad Cenhadol** i Fedyddwyr Cymru! Ydych chi'n angerddol dros neges yr Iesu a **chenhadaeth arloesol?***

Mae Cymanfaoedd Undeb Bedyddwyr Cymru yn chwilio am unigolion i wasanaethu fel **ymddiriedolwyr** ar gyfer **pedwar Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO) rhanbarthol** newydd er mwyn dwyn gobaith yr efengyl i bob cymuned yng Nghymru.

Mae hyn yn **gyfle unigryw**:

- i lunio a chefnogi prosiectau cenhadol ac eglwysig mewn cyd-destunau amrywiol
- i feithrin arweinwyr newydd, buddsoddi mewn datblygiadau cenhadol newydd
- i reoli adnoddau hanfodol er mwyn buddsoddi yn nyfodol hirdymor y ffydd Gristnogol
- i arwain yn strategol ac yn gydweithredol fel rhan o dîm arloesi ar gyfer y bennod nesaf ym mywyd Bedyddwyr Cymru

Rydym yn chwilio am **unigolion** sy'n meddu ar y canlynol:

- calon dros genhadaeth ac ymrwymiad i'r achos Bedyddiedig
- gweledigaeth strategol a'r gallu i weld posibiliadau newydd ar gyfer y weinidogaeth
- sgiliau neu brofiad arbenigol mewn arweinyddiaeth, cyllid, gwybodaeth gyfreithiol neu brofiad gweinidogaethol
- cywirdeb, atebolrwydd, didwylledd

## DARGANFOD MWY

Rydym yn eich gwahodd yn gynnes i **sesiwn gychwynnol anffurfiol Cwestiwn ac Ateb** ar Zoom.

Bydd y sesiynau hyn yn cyflwyno'r weledigaeth newydd ar gyfer y CIOs, yn amlinellu'r nodweddion a'r sgiliau a ddisgwylir ac yn rhoi enghreifftiau o'r ystod profiad y chwiliwn amdanynt. Mae'n gyfle anffurfiol i unrhyw un sydd â diddordeb neu sy'n dymuno cael rhagor o wybodaeth, heb unrhyw ymrwymiad. Cynhelir sesiwn yn y Saesneg ar 3 Tachwedd ac yn y Gymraeg ar **4 Tachwedd**. Cysylltwch â post@ubc.cymru i dderbyn manylion Zoom ac i gofrestru.

# Creu goleuni o dywyllwch

Erbyn hyn mae gŵyl Calan Gaeaf wedi tyfu i fod yn un o'r prif wyliau sy'n cael eu dathlu yng Nghymru yn ystod y flwyddyn. Yn fasnachol mae'n werth bron cymaint â chyfnod y Pasg i siopau. Fe welwn archfarchnadoedd yn llawn o fygydau a phob math o geriach wedi eu creu i achosi ofn a dychryn. Gŵyl Americanaidd sy'n pwysleisio'r tywyll a'r dychrynllyd ydi hi, gan orfoleddu mewn ofn a marwolaeth. Mae'r dathliadau yng Nghymru wedi cynyddu'n rhyfeddol dros y degawd diwethaf, ac mae'n siŵr gen i y bydd plant yn galw heibio gyda'r 'trick or treat'. A bydd llawer iawn o bartïon a disgos plant hefyd yn cael eu cynnal mewn pentrefi a threfi ledled Cymru.

Fel eglwysi rydym yn naturiol yn bryderus am yr effaith negyddol mae hyn yn ei gael ar fywydau plant, ac yn poeni hefyd dros yr henoed sy'n cael eu dychryn gan yr ymwelwyr dieflig. Ein hymateb ar y cyfan felly yw anwybyddu'r holl beth. Ond cofiwn hefyd fod y cyfnod yma yn Ŵyl yr Holl Saint, a bod llawer y gallwn ei wneud fel unigolion ac eglwysi i atgoffa ein cymdeithas mai gwell o lawer yw byw yn y goleuni na chuddio yn y tywyllwch.

**Parti Goleuni**

Mae dau adnodd gwerthfawr ar gael i alluogi eglwysi i drefnu digwyddiadau 'gwahanol' adeg Calan Gaeaf. Mae Scripture Union wedi darparu pecyn o adnoddau ar gyfer cynnal 'Parti Goleuni', sy'n llawn syniadau am gemau a gweithgareddau'n sôn am Iesu fel goleuni'r byd. Yn hytrach na dychryn plant a'u cyflwyno i bethau tywyll a dieflig, dyma adnodd sy'n ein helpu i gyflwyno newyddion da. Ceir yn yr adnodd (Saesneg) nifer o syniadau da ar sut i gynnal noson hwyliog gyda phlant, yn llawn crefft, gemau a gweithgareddau. Mae modd lawrlwytho'r pecyn am ddim o wefan [www.scriptureunion.org.uk](www.scriptureunion.org.uk)



**Mae'r golau'n dal i ddisgleirio yn y tywyllwch, a'r tywyllwch wedi methu ei ddiffodd.**
**(Ioan 1:5)**

Am fwy o wybodaeth, ewch i: [https://ysgolsul.com/?page_id=5728](https://ysgolsul.com/?page_id=5728)



**Parti Pwmpen**

Hefyd, mae mudiad World Vision wedi paratoi pecyn i eglwysi (yn Saesneg eto ar hyn o bryd) yn llawn syniadau ar sut i gynnal Parti Pwmpen. Mae 'na syniadau gwych sut i wneud llawer iawn o brojectau crefft allan o bwmpenni, pob un ohonynt â neges gadarnhaol am gariad Iesu. Ewch i [pumpkinheroes.com](pumpkinheroes.com) i gael mwy o wybodaeth.

# Cyflwyno Medalau Gee yn Nhre-lech

Nos Sul, 12 Hydref, cafwyd cyfle i gyflwyno dwy fedal Gee i ddau o ffyddloniaid yr ysgol Sul yn ardal Tre-lech, a hynny mewn amgylchiad gwahanol i'r arfer.

Gan fod David Elfed Davies yn aelod yng nghapel Hermon ac Ann Evans yn aelod yng nghapel Blaen-y-coed, sylweddolodd Tom Defis, sy'n digwydd bod yn frawd i Ann, y byddai'r ddau ohonynt yn bresennol yng Nghymanfa Ganu Annibynwyr y cylch yn Nhre-lech, ac felly y gellid cyflwyno'r medalau fel rhan o'r Gymanfa.

Bu'n ddiwrnod cyfan o ganu mawl, gyda chyfarfodydd yn y bore, y pnawn a'r hwyr, a hynny dan arweiniad afieithus Pat Jones. Erbyn cyfarfod y nos, roedd Aled Davies wedi cyrraedd yno ar ran Cyngor Ysgolion Sul Cymru i gyflwyno'r ddwy fedal. Roedd Aled yn gyfarwydd iawn â Pat wrth gwrs gan ei bod yn gyn-aelod yn yr ofalaeth yn Chwilog cyn iddi symud ac ymgartrefu yng Nghaerfyrddin.




O'r chwith i'r dde: Aled Davies, Pat Jones, Guto Prys ap Gwynfor, David Elfed Davies, Gareth Ioan a Tom Defis

Yn dilyn eitem ddefosiynol, llywyddwyd y cyfarfod gwobrwyo gan Guto Prys ap Gwynfor a Tom Defis, cyn cyflwyno'r awenau i Aled. Diolchwyd i Elfed ac Ann am oes o wasanaeth ac am eu brwdfrydedd a'u hafiaith dros waith yr ysgol Sul.

Llongyfarchwyd hwy yn wresog gan ddymuno pob nerth a rhwyddineb iddynt eto i'r dyfodol.

## Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




**Codi'r Llen 2 – Ymson Hagar**

Ofynnodd neb imi sut ro'n i'n teimlo. Iddyn nhw, dim ond morwyn oeddwn i – rhywbeth dibris. Doedd neb yn gweld y gwaed yn llifo drwy fy ngwythiennau a'r dygnwch ym mêr f'esgyrn. Fe allwn fod wedi diflannu oddi ar wyneb y ddaear, hyd nes i Sarai sylweddoli fy mod yn ddefnyddiol iddi. Aeth at Abraham i esbonio a doedd dim dewis gen i; roedd y grym i gyd ganddyn nhw. Pan ddaeth y newydd mod i'n feichiog, corddodd eiddigedd Sarai ynddi, a chododd fy ffieidd-dra innau tuag ati hi. Roedd pob gair o'i genau fel cwyr poeth yn diferu drosta i.

Fedrwn i ddim aros yno, a rhedais – dianc, ymhell oddi wrthyn nhw, i'r anialwch. Cododd arswyd ynof. Roedd fy nhraed yn ddoluriau i gyd, fy ngwddw yn sych grimp, a'r hunllefau'n troi fel nadredd yn fy meddwl liw nos.

Ond yna, yn y bore, gwelais ffynnon. Wrth benlinio i ddrachtio'r dŵr, clywais lais dwfn a melfedaidd. A gwelais y person harddaf a welais erioed o fy mlaen. Dywedodd fy enw â goslef gynnes. Teimlais imi gael fy newis, fy nerbyn, a hynny dim ond drwy glywed fy enw! Gofynnodd imi o ble ro'n i wedi dod ac i ble ro'n i'n mynd; roedd ots gan hwn am y manylion. Tipyn o sioc oedd clywed ei gyngor wedyn i mi fynd yn ôl. Anodd oedd ystyried dychwelyd a gorfod wynebu'r treialon eto. Ches i ddim cadarnhad y byddai pethau'n berffaith iawn, ond rywsut ro'n i'n teimlo'n gryfach.

Ac yna teimlais fy ngwefusau'n agor i siarad, a hynny â hyder newydd. Gelwais ef yn *El-roi*, oherwydd ces fy ngweld. Wrth y ffynnon, rhwng dau le, yn y gwagle rhwng y ffiniau, ces f'adnabod gan Dduw. Pan nad oedd neb yn fy ngweld, edrychodd arnaf a'm codi fry o'r llwch.

Daeth fy mab, Ishmael, i'r byd, yn gariad i gyd. Eto, chwyrlïai eiddigedd Sarai o'm cwmpas. Gwyddai fy mod wedi rhoi rhywbeth gwerthfawr i Abraham, a'i bod hi wedi methu gwneud hynny. Tawedog oedd Abraham. Dyma oedd y sefyllfa am flynyddoedd, ond newidiodd pethau; daeth mab arall, Isaac, y tro hwn i Sara (clywais mai Duw roddodd yr enw newydd arni).

Bu popeth yn iawn am gyfnod, ond un diwrnod chwarddodd Ishmael yn wyneb Isaac. Collodd Sara ei thymer a chawsom ein halltudio i'r anialwch eto.

Roedd pethau bron ar ben arnom a llifeiriai fy nagrau i'r llwch wrth weld ein potel ddŵr yn wag. Rhoddais Ishmael i orwedd dan berth a disgwyl am y diwedd. Edrychais i fyny ar y sêr a daeth gwaedd o waelod fy mherfedd. Ac yna, fel o'r blaen, clywais lais – yr un llais cynnes eto, yn fy siarsio i beidio bod ag ofn. Agorwyd fy llygaid; gwelais ffynnon ac fe gawsom yfed o'r dŵr bywiol, eto!

Efallai na fydd f'enw'n gofiadwy i bawb. Efallai y daw canrifoedd o ferched ar fy ôl a'r rheini wedi gwneud mwy na mi, wedi llwyddo i gyflawni gwaith Duw yn well na fi. Ond … onid yw fy stori'n bwysig? Cofiwch fi felly fel yr alltud a gafodd ei derbyn, y gaethferch a gafodd ei gweld, y mewnfudwr a fu'n byw mewn ofn ond a gafodd le. Cofiwch fi – Hagar, yr un a gafodd ei chodi o'r anialwch gan y Duw sy'n gweld gwerth ym mhawb.

**Holi**

- Ydych chi'n teimlo trueni dros Hagar? Ydych chi'n gweld bod tebygrwydd rhwng ei sefyllfa hi a sefyllfa cannoedd o ferched (a dynion) sy'n byw mewn ofn heddiw?
- Ydych chi, neu rywun rydych chi'n ei adnabod, wedi gorfod dychwelyd i sefyllfa anodd rywdro? Sut brofiad oedd hwnnw?
- Oes yna 'angel' wedi eich 'gweld' chi ar ryw adeg arbennig yn eich bywyd ac wedi bod o gymorth? Ai Duw oedd yn gweithio drwy'r 'gweld' hwn?
- Roedd gan Dduw gynllun ar gyfer Hagar a Sara. Oes gan Dduw gynllun ar gyfer pawb ohonom – 'ni' a 'nhw'?
- Mae caethwasiaeth fodern yn rhywbeth real, hyd yn oed yn ein cymdeithas ni heddiw. Sut allwn ni wneud gwahaniaeth?

**Gweddi**

Mae cymaint o bobl yn teimlo'n anweledig ac yn dyheu am gael eu derbyn. Mae nifer fawr hefyd yn byw mewn ofn ac yn wynebu treialon enbyd. Rho inni'r doethineb i wybod sut mae bod o gymorth, a'r dewrder i fentro. Agor ein llygaid i weld yr annhegwch ac i wneud yr hyn allwn i hyrwyddo cyfiawnder i bawb.

Gwna ni'n gyfeillion triw i Iesu Grist; arwain ni i beidio aros yn ein hunfan yn dawedog, ond i rwydweithio cariad Duw mewn ffordd real yn ein byd ni heddiw.

*Siân Meinir*

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 26 Hydref – Dim rhaglen**

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 26 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Hywel Wyn Edwards


*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 26 Hydref, am 12:00yp**
Sul Adferiad – oedfa dan ofal Denzil John, Caerdydd

# Cyrsiau'r hydref yng Ngholeg y Bala

Bydd tymor yr hydref yn brysur iawn eto eleni yn y coleg gyda thri digwyddiad i blant, ieuenctid ac oedolion ifanc.

**Clwb Hydref, 27–8 Hydref: plant 8–11oed**
Bydd y plant ieuengaf yn edrych ar hanes Joshua, a thema'r deuddydd fydd 'Ysbiwyr'. Bydd y plant yn nofio, a bydd 'ystafell ddianc', chwaraeon yn y gampfa, heriau o gwmpas y Bala, sioe dalentau a digon o amser i gymdeithasu gyda ffrindiau hen a newydd.






**CWRS Ieuenctid, 31 Hydref–2 Tachwedd: Blynyddoedd Uwchradd 7–10**
Bydd criw'r CWRS Ieuenctid' yn edrych ar Dduw, yr Ysbryd Glân, ar ôl edrych ar Duw, y Mab, yn yr haf a Duw, y Tad, 'nôl yn hanner tymor Chwefror. Bydd gêm bêl-droed, crefftau, gemau bwrdd, chwaraeon, cymdeithasu a lot mwy, yn ogystal â'r cyfle i ddewis cyfnod o addoliad a gweddi opsiynol yn ychwanegol at y sgyrsiau or Beibl.




**Arfogi, 14–16 Tachwedd, Arfogi: myfyrwyr ac oedolion ifanc yn eu 20au/30au**
Bydd Arfogi, ein penwythnos i fyfyrwyr ac oedolion ifanc, yn edrych ar Rhufeiniaid 12. Bydd yn gyfle gwych i addoli, dysgu a mwynhau cymdeithas gyda Christnogion ifanc eraill.

Mae'n bosib archebu lle ar wefan Coleg y Bala – colegybala.org – neu drwy dudalen Facebook y coleg.

Byddem yn ddiolchgar os gallech gofio am y cyrsiau hyn yn eich gweddïau ac annog cynifer o blant ac ieuenctid ag y gallwch i ymuno ynddynt. Rydym yn ddiolchgar iawn hefyd am nawdd llawer o eglwysi, henaduriaethau ac ati i'w gwneud yn bosibl i'r bobl ifanc allu mynychu'r cyrsiau hyn.



# Ailsefydlu Ysgol Sul

Daeth terfyn dros dro ar weithgareddau ysgolion Sul Libanus, Pant-glas, a Soar, Bryncir, yn Eifionydd yn 2020. Ond erbyn dechrau 2025 roedd awydd ymhlith rhai o deuluoedd ifanc y ddwy eglwys i geisio rhoi cynnig ar ailsefydlu'r ysgol Sul.

Oherwydd bod nifer y plant wedi lleihau, penderfynwyd sefydlu ysgol Sul unedig ar gyfer Pant-glas a'r Bryncir. Daeth y rhieni at ei gilydd ym mis Chwefror a phenderfynwyd cyfarfod yn fisol ar foreau Sul, naill ai ym Mhant-glas neu ym Mryncir.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar Sul y Blodau pan gafodd y plant gyfle i drafod y Pasg, a chafwyd sesiwn debyg ym mis Mehefin i ddysgu am y Sulgwyn. Aeth y plant a'u rhieni am dro ar hyd Lôn Eifion ym mis Mai, ac er nad oedd yn daith noddedig roedd cyfle i gyfrannu tuag at Gymorth Cristnogol a thrafod y gwaith a wneir gan yr elusen honno.

Ym mis Gorffennaf bu'r plant yn dysgu ac yn diolch am y greadigaeth a chawsant gyfle i blannu blodau i'w gosod o flaen y ddau gapel. Cynhaliwyd gwasanaeth diolchgarwch ddiwedd Medi a bwriedir cynnal gwasanaeth Nadolig ar ddyddiad i'w gadarnhau.



Gwasanaeth Diolchgarwch gyda Dafydd Iwan

Rydym yn ddiolchgar i'r rhieni ac i Martha Dobson am gefnogi'r gweithgareddau. Os gwyddoch am blant a hoffai ymuno â'r ysgol Sul byddai Bethan ar bethannantcyll@outlook.com neu 07880 674566 a Mair ar gwindy@ hotmail.co.uk neu 07717 125543 yn falch iawn o glywed gennych.

# Gigio dros Gaza

Ers dwy flynedd bellach mae'r ymosodiadau ar Gaza wedi arwain at dros 65,000 o fywydau'n cael eu colli yno, gan gynnwys miloedd o blant yn eu plith. Gyda'r bomio parhaus nid yw bywyd yr un plentyn wedi bod yn ddiogel, ac mae'r rhelyw ohonynt bellach yn byw ynghanol y rwbel a'r llanast ac yn dioddef oherwydd prinder bwyd. Collwyd pob sefydlogrwydd, gan gynnwys eu haddysg a chyfle i gymdeithasu, gan eu gadael mewn trawma mawr.

Aeth criw o bobl yng ngorllewin Cymru ati, dros flwyddyn yn ôl bellach, i osod pabell fawr yng nghanol y ddinas, gan sefydlu Ysgol Sumud (ystyr y gair yw dycnwch). Ac ers peth amser, bellach, rydym ninnau fel gofalaeth wedi bod yn helpu i ariannu'r ysgol yn fisol. Trefnwyd cyfres o gigiau, ac rydym wedi bod yn ffodus i gael help ymarferol gan Bryn Fôn, nid yn unig yn chwarae yn y nosweithiau a darparu system sain a golau, ond bu hefyd yn tynnu bandiau eraill i mewn i'r nosweithiau hyn.

Nos Sadwrn, 5 Hydref, cafwyd noson hynod lwyddiannus yn Neuadd y Farchnad, Caernarfon, gyda'r neuadd yn orlawn. Y bandiau oedd yn rhan o'r noson oedd Achlysurol, Cam Gwag a Bwncath. Yn ystod y noson cafwyd cyfle hefyd i glywed gan Mohamed, sy'n byw yn y Llain Orllewinol, a fu'n annog pawb oedd yno i ddal i sefyll dros Balesteina ac i beidio ag anghofio am yr erchyllterau sy'n digwydd yno.



Y band Bwncath ar y llwyfan yn cloi'r noson



Plant ysgol Sumud yn derbyn llyfrau newydd rai dyddiau'n ôl

Pwrpas y nosweithiau hyn wrth gwrs yw codi arian, i'n galluogi ni i gyfrannu bob mis at gyflogau'r athrawon ac i brynu offer ar gyfer yr ysgol. Rydym yn mawr obeithio y gwelwn heddwch yn dod yn realiti yno yn fuan. Ond, beth bynnag fydd canlyniad y trafodaethau, gwyddom y cymer flynyddoedd i gael unrhyw normalrwydd yn y wlad, ac y bydd angen sawl Ysgol Sumud i gynnal addysg ar gyfer y plant yno.

Parhawn i'w cefnogi drwy'r cyfnod hwnnw!

*Aled Davies*

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cygnor diogelu Cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol 01745817584 / 07957510346 yn ystod oriau Swyddfa
post@panel.cymru panel.cymru
Neu Thirtyone:eight 0303 003 1111
(am gyngor tu allan i oriau Swyddfa)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru